
# SPSF 4:
## Rôl Gydweithredol
(Cynghorau cymunedol)

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol

Canllawiau Statudol ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

# Nodau llesiant
## Beth ydym yn anelu ato




# Egwyddor Datblygu Cynaliadwy
## Sut y byddwn yn cyflawni



**Hirdymor**



**Atal**



**Integreiddio**



**Cydweithio**



**Cynnwys**

**Diwygio nod llesiant (Ebrill 2024)**

Mae adran 20 o Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 yn diwygio'r disgrifiad o nod llesiant "Cymru Lewyrchus" yn adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 drwy roi "gwaith teg" yn lle "gwaith addas". Daeth y diwygiad hwn i rym ar 1 Ebrill 2024. Diweddarwyd y ddogfen hon ym mis Ebrill 2024 i adlewyrchu'r newid hwn.

OGL © Hawlfraint y Goron 2024
WG50146
ISBN digidol 978-1-83625-243-6

Darlun ar y blaen wedi'i gynllunio gan Freepik – www.freepik.com

# SPSF 4 - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 - Canllawiau Statudol ar gyfer cynghorau cymuned a thref

Mae'r canllaw statudol hwn yn cael ei gyhoeddi o dan adran 40(7) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf). Mae'n rhoi canllawiau penodol i gynghorau cymuned a thref ar eu dyletswyddau mewn perthynas â chynlluniau llesiant lleol, os yw'r ddyletswydd yn adran 40(1) y Ddeddf yn berthnasol iddynt hwy.

## Crynodeb

### Beth mae'r Ddeddf yn ei wneud?

Mae'r Ddeddf yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Bydd yn gwneud i gyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf feddwl mwy am y tymor hir; gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a chyda'i gilydd; ceisio atal problemau; a chymryd ymagwedd fwy cydgysylltiedig. Bydd hyn yn ein helpu ni i greu'r Gymru yr ydym i gyd am fyw ynddi, yn awr ac yn y dyfodol.

Mae'r Ddeddf yn sefydlu byrddau gwasanaethau cyhoeddus. Mae'n ofynnol i'r byrddau hynny asesu cyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ardal yr awdurdod lleol y maent yn ei gwasanaethu, ac yna paratoi cynlluniau llesiant yn nodi amcanion ar gyfer gwella llesiant yr ardal a'r camau y mae aelodau'r bwrdd yn bwriadu eu cymryd i ddiwallu'r amcanion hynny.

### Beth mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau cymuned a thref ei wneud?

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar rai cynghorau cymuned a thref i gymryd pob cam rhesymol tuag at ddiwallu'r amcanion lleol a gynhwysir yn y cynllun llesiant lleol sy'n cael effaith yn eu hardaloedd. Mae cyngor cymuned neu dref yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd honno dim ond os oedd ei incwm neu wariant gros yn o leiaf 200,000 am bob un o'r tair blynedd ariannol cyn y flwyddyn y cafodd y cynllun llesiant lleol ei gyhoeddi.

Os bydd cyngor cymuned neu dref yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd, rhaid iddo gyhoeddi adroddiad yn flynyddol yn manylu ar ei gynnydd i gyflawni'r amcanion a gynhwysir yn y cynllun llesiant lleol.

Mae croeso i gynghorau cymuned neu dref nad ydynt yn cwrdd â'r meini prawf ar gyfer bod yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd yn adran 40(1) y Ddeddf ond sy'n dal yn dymuno cyfrannu tuag at fodloni'r amcanion lleol yn y cynllun llesiant lleol wneud hynny ar sail wirfoddol.

Bydd angen i unrhyw gynghorau sy'n bwriadu cyfrannu tuag at gyflawni amcanion lleol, boed o dan y ddyletswydd neu'n wirfoddol, ystyried a yw'r camau y maent yn bwriadu eu cymryd o fewn eu pwerau.

**Sut y bydd cynghorau cymuned a thref yn cymryd rhan?**

Mae pob cyngor cymuned a thref yn cael eu hannog i gymryd rhan; gan fod ganddynt i gyd rôl bwysig i'w chwarae wrth wella llesiant eu hardal.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau gwasanaethau cyhoeddus gynnwys cynghorau cymuned a thref yn y broses o wella llesiant eu hardaloedd, waeth a yw'r ddyletswydd yn adran 40(1) y Ddeddf yn berthnasol i'r cynghorau hynny ai peidio. Mae pob cyngor cymuned a thref yn cael eu dosbarthu fel "partneriaid eraill" byrddau gwasanaethau cyhoeddus ac mae'n rhaid i'r byrddau hynny ymgynghori â hwy ynghylch asesu llesiant lleol ac yn dilyn hynny ynghylch y cynllun llesiant lleol. Byddant hefyd yn cael y cyfle i ymgysylltu â'r bwrdd gwasanaethau cyhoeddus pan wahoddir hwy i wneud hynny.

Bydd angen i gynghorau cymuned a thref sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd gysylltu'n agos gyda'r bwrdd gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer eu hardal ar osod amcanion yn y cynllun llesiant lleol, o ystyried ei bod yn ofynnol iddynt gymryd pob cam rhesymol yn eu hardaloedd tuag at gyflawni'r amcanion hyn.

Mae cynghorau nad ydynt yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd yn adran 40(1) y Ddeddf yn cael eu hannog i ystyried pa gyfraniad y gallent ei wneud tuag at fodloni'r amcanion lleol a fabwysiadwyd ar gyfer eu hardaloedd.

# 1. Trosolwg o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

*Datblygu cynaliadwy*

1. Yn y Ddeddf, mae "datblygu cynaliadwy" yn golygu'r broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy gymryd camau, yn unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy (gweler para. 2 isod) gan anelu at gyrraedd y nodau llesiant (gweler para 3 isod).

2. Mae'r Ddeddf yn nodi "egwyddor datblygu cynaliadwy" sy'n ymwneud â sut y dylai sefydliadau fynd ati i gyflawni eu dyletswydd llesiant o dan y Ddeddf. Yn y Ddeddf, mae unrhyw gyfeiriad at gorff cyhoeddus yn gwneud rhywbeth "yn unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy" yn golygu bod yn rhaid i'r corff ymddwyn mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

*Nodau llesiant*

3. Mae'r Ddeddf yn gosod saith nod llesiant ac yn rhoi disgrifiad o bob un ohonynt:

| **Nod Llesiant** | **Disgrifiad** |
|---|---|
| Cymru lewyrchus | Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy’n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy’n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy’n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith teg. |
| Cymru gydnerth | Cenedl sy’n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy’n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â’r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd). |
| Cymru iachach | Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol. |

| | |
|---|---|
| Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymdeithas sy’n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo’u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a’u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd). |
| Cymru o gymunedau cydlynol | Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da. |
| Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu. | Cymdeithas sy’n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a’r Gymraeg ac sy’n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden. |
| Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o’r fath gyfrannu’n gadarnhaol at lesiant byd-eang. |

4. Mae'r saith nod llesiant (y nodau) yn dangos y math o Gymru yr ydym am ei gweld. Gyda'i gilydd maent yn cynnig gweledigaeth a rennir ar gyfer y cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf i weithio tuag ati. Maent yn gyfres o nodau; mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn glir bod yn rhaid i'r cyrff cyhoeddus a restrir weithio tuag at gyflawni pob un o'r nodau, nid dim ond un neu ddau.

*Dyletswydd llesiant cyrff cyhoeddus*

5. Mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus penodol gyflawni datblygiad cynaliadwy. Fel rhan o wneud hynny rhaid iddynt:

   a. bennu a chyhoeddi amcanion llesiant sydd wedi'u cynllunio i sicrhau eu bod yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at gyflawni pob un o'r nodau lles; a

   b. chymryd pob cam rhesymol, wrth arfer eu swyddogaethau, i fodloni'r amcanion hynny.

6. At ddibenion Rhan 2 y Ddeddf, caiff y canlynol eu hystyried yn gyrff cyhoeddus ac yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd llesiant:

Gweinidogion Cymru
yr holl brif gynghorau yng Nghymru
pob Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru
Ymddiriedolaethau canlynol y GIG - Iechyd Cyhoeddus Cymru, Felindre
yr holl Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ar gyfer Parciau Cenedlaethol yng Nghymru
pob awdurdod tân ac achub yng Nghymru
Corff Adnoddau Naturiol Cymru

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Cyngor Celfyddydau
Cymru Cyngor Chwaraeon Cymru
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Amgueddfa Genedlaethol Cymru
Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Addysg a Gwella Iechyd Cymru
Gofal Cymdeithasol Cymru
Awdurdod Cyllid Cymru
Trafnidiaeth Cymru (sef Transport for Wales (rhif y cwmni 09476013)
Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol (sef Centre for Digital Public Services Limited (rhif y cwmni 09341679)
Cymwysterau Cymru

*Dyletswydd Llesiant ar fyrddau gwasanaethau cyhoeddus*

7. Yn ychwanegol at y ddyletswydd llesiant a roddir ar gyrff cyhoeddus unigol, mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi dyletswydd llesiant ar fyrddau gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r ddyletswydd honno yn ei gwneud yn ofynnol i'r byrddau hynny wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol eu hardaloedd trwy gyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant.

8. Mae'n rhaid i gyfraniad byrddau gwasanaethau cyhoeddus at gyflawni'r nodau gynnwys:

   a. asesu cyflwr economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol llesiant yn eu hardaloedd;
   b. gosod amcanion lleol sydd wedi'u cynllunio i sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl o fewn eu hardaloedd at gyflawni'r nodau hynny;
   c. cymryd pob cam rhesymol gan aelodau'r bwrdd (wrth arfer eu swyddogaethau) i fodloni'r amcanion hynny.

9. Rhaid i bob bwrdd gwasanaethau cyhoeddus:

   - asesu cyflwr llesiant (economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol) yn ei ardal;

   - paratoi a chyhoeddi cynllun llesiant lleol yn nodi amcanion lleol i gyfrannu at y nodau llesiant a'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd i'w cyflawni.

10. Rhaid i unrhyw beth mae'r bwrdd yn ei wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd llesiant a osodir arno fod yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

11. Mae rhwymedigaeth neu b*er bwrdd gwasanaethau cyhoeddus yn b*er neu ddyletswydd aelodau'r bwrdd sy'n gweithredu ar y cyd. Mae hyn yn golygu na allai bwrdd gyhoeddi ei asesiad o gynllun llesiant neu gynllun llesiant lleol oni bai bod ei holl aelodau wedi cytuno i wneud hynny.

*Asesiadau o lesiant lleol*

12. Mae'n ofynnol i bob bwrdd gwasanaethau cyhoeddus gynnal asesiad o lesiant

economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ei ardal. Rhaid i'r asesiad gael ei gyhoeddi o leiaf 12 mis cyn iddo gyhoeddi ei gynllun llesiant lleol.

13. Yn ymarferol, byddai asesiad o leisiant lleol yn cael ei gyhoeddi o fewn y 12 mis cyn pob etholiad llywodraeth leol cyffredin oherwydd bod y Ddeddf yn darparu bod rhaid i'r cynllun llesiant lleol gael ei gyhoeddi heb fod yn hwyrach nag un flwyddyn ar ôl etholiad cyffredin, fel y diffinnir hynny yn adran 26 Deddf Llywodraeth Leol 1972.

14. Bydd pob bwrdd yn asesu llesiant yr ardaloedd cymunedol o fewn ei ardal o'r bwrdd yn ogystal â llesiant yr ardal yn ei chyfanrwydd. Gallai'r cymunedau gael eu pennu gan y byrddau gwasanaethau cyhoeddus neu gan reoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru. Ni fydd yr ardaloedd cymunedol a ddiffinnir yn yr asesiad o reidrwydd yn cyd-fynd â'r cynghorau cymuned yn ardal y bwrdd.

*Cynlluniau llesiant lleol*

15. Bydd y cynllun llesiant lleol yn nodi'r amcanion y mae'r bwrdd gwasanaethau cyhoeddus wedi penderfynu fydd yn sicrhau cyfraniad cyfunol mwyaf posibl ei gyfranogwyr o fewn ei ardal tuag at gyflawni'r nodau llesiant. Rhaid i gynllun llesiant lleol pob bwrdd gwasanaethau cyhoeddus gael ei gyhoeddi heb fod yn hwyrach na 12 mis ar ôl etholiad llywodraeth leol cyffredin.

## 2. Byrddau gwasanaethau cyhoeddus

16. Ni fydd byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn endidau corfforaethol ond byddant yn cynnwys pedwar aelod statudol:

    a. y prif gyngor ar gyfer ardal yr Awdurdod Lleol;
    b. y Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer ardal y mae unrhyw ran ohoni yn dod o fewn ardal yr Awdurdod Lleol
    c. Awdurdod Tân ac Achub Cymru ar gyfer ardal y mae unrhyw ran ohoni yn dod o fewn ardal yr Awdurdod Lleol
    d. Corff Adnoddau Naturiol Cymru.

17. Bydd gofyn i'r aelodau wahodd personau penodol i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r bwrdd gwasanaethau cyhoeddus. Y personau hynny yw:

    a. Gweinidogion Cymru;
    b. prif gwnstabl yr heddlu ar gyfer ardal heddlu y mae unrhyw ran ohoni yn dod o fewn ardal yr Awdurdod Lleol;
    c. Comisiynydd Heddlu a Throseddu ar gyfer ardal heddlu y mae unrhyw ran ohoni yn dod o fewn ardal yr Awdurdod Lleol;
    d. darparwyr rhai gwasanaethau prawf;
    e. o leiaf un corff yn cynrychioli sefydliadau gwirfoddol perthnasol (p'un a yw'r corff yn cael ei alw'n Gyngor Gwirfoddol Sirol ai peidio).

18. Bydd pob bwrdd yn gallu gwahodd unrhyw berson arall i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r bwrdd gwasanaethau cyhoeddus cyn belled ag y bo'r person yn cyflawni swyddogaethau o natur gyhoeddus. Nid yw person sy'n derbyn gwahoddiad i gymryd rhan yng ngweithgareddau bwrdd yn dod yn aelod ohono yn rhinwedd derbyn y gwahoddiad. Mae cymryd rhan yng ngweithgaredd bwrdd yn golygu gweithio ar y cyd gyda'r bwrdd, unrhyw aelod ohono neu unrhyw gyfranogwr a wahoddwyd ar unrhyw beth y mae'r bwrdd yn ei wneud o dan ei ddyletswydd i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ei ardal drwy gyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant.

19. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i bob bwrdd gwasanaethau cyhoeddus ymgysylltu â phartneriaid allweddol (y cyfeirir atynt fel "partneriaid eraill") yn yr ardal sydd â diddordeb perthnasol yn llesiant yr ardal neu sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus pwysig wrth baratoi, gweithredu a chyflwyno gwaith y bwrdd. Rhaid i bob bwrdd geisio cyngor oddi wrth ei bartneriaid eraill ac fel arall eu cynnwys yn y ffyrdd ac i'r graddau y mae'n ystyried sy'n briodol. Mae pob cyngor cymuned yn "bartneriaid eraill" i'w bwrdd gwasanaethau cyhoeddus waeth p’un a ydynt yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd i gymryd pob cam rhesymol yn eu hardaloedd tuag at gwrdd â’r amcanion lleol yn y cynllun llesiant lleol ar gyfer eu hardaloedd ai peidio.

20. Felly ymgynghorir â phob cyngor cymuned a thref mewn ardal bwrdd gwasanaethau cyhoeddus ynghylch asesu llesiant lleol a'r cynllun llesiant lleol, waeth p’un a ydynt dan ddyletswydd i gymryd camau rhesymol i gwrdd â’r amcanion lleol ai peidio.

21. Partneriaid eraill y bwrdd yw:

a. Cynghorau cymuned neu dref yn ei ardal
b. Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru
c. unrhyw Gyngor Iechyd Cymuned ar gyfer ardal sydd (neu y mae unrhyw ran ohono) yn dod o fewn ardal yr Awdurdod Lleol
d. unrhyw Awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru y mae unrhyw ran ohono yn dod o fewn ardal yr Awdurdod Lleol
e. Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
f. unrhyw sefydliad yn y sector addysg bellach neu'r sector addysg uwch a leolir yn gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn ardal yr Awdurdod Lleol
g. Cyngor Celfyddydau Cymru
h. Cyngor Chwaraeon Cymru
i. Llyfrgell Genedlaethol Cymru
j. Amgueddfa Genedlaethol Cymru

## 3. Y ddyletswydd ar rai cynghorau cymuned a thref

22. Mae Adran 40 y Ddeddf yn gosod dyletswydd ar rai cynghorau cymuned a thref i gymryd pob cam rhesymol tuag at gyflawni'r amcanion lleol yn y cynllun llesiant lleol sy'n cael effaith yn eu hardaloedd. Mae cynghorau cymuned neu dref yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd honno dim ond os ydynt yn bodloni meini prawf penodol.

23. Mae cyngor cymuned neu dref yn bodloni'r meini prawf hynny os, ar gyfer pob un o'r tair blynedd ariannol cyn i'r cynllun llesiant lleol ar gyfer ei ardal gael ei gyhoeddi, oedd naill ai ei incwm gros neu ei wariant gros yn o leiaf 200,000. Nid oes rhestr ddiffiniol o'r cynghorau hyn gan y gallai'r rhestr amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Mater i'r cynghorau eu hunain yw penderfynu a yw'r ddyletswydd yn berthnasol iddynt hwy ar yr adeg pan fydd y cynllun llesiant lleol yn cael ei gyhoeddi.

24. Mae'n rhaid i bob cyngor cymuned a thref sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd ffurfio ei farn ei hun o ran pa gamau y byddai'n rhesymol iddo eu cymryd tuag at fodloni'r amcanion lleol yn ei ardal, ar sail ei wybodaeth a'i ystyriaeth ei hun o amgylchiadau a nodweddion ei ardal.


25. Os bydd cyngor cymuned neu dref yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd, rhaid iddo gyhoeddi adroddiad ar gyfer pob blwyddyn ariannol berthnasol, yn manylu ar y cynnydd a wnaed ganddo o ran bodloni'r amcanion yn y cynllun llesiant lleol.

## 4. Bodloni’r ddyletswydd

26. Dylai ystyried yr amcanion lleol, a nodi’r camau y gellir eu cymryd yn rhesymol tuag at eu bodloni, gael ei integreiddio i fecanwaith bresennol cyngor neu gyngor tref ar gyfer cynllunio, monitro ac adrodd ar yr hyn maent yn ei wneud.

27. Rhagwelir er y gallai pob cyngor cymuned neu dref fynd at i fodloni’r ddyletswydd yn eu ffordd eu hunain byddai’r cylch cynllunio yn dilyn y camau bras hyn, gan ddechrau o gytuno ar flaengynllun i’w weithredu a’i gyflwyno,

Cylch cynllunio arfaethedig ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned:



*Ystyried yr amcanion sy'n cael eu cynnwys yn y cynllun llesiant lleol a’u hintegreiddio ym mlaengynllun y cyngor*

28. Rhaid i fyrddau gwasanaethau cyhoeddus ymgynghori â'r holl gynghorau cymuned a thref yn eu hardaloedd ynghylch eu cynlluniau llesiant lleol trwy roi copi drafft o'r cynlluniau hynny iddynt. Gallai cynghorau cymuned a thref ymateb i'r ymgynghoriad hwnnw, gan gynnwys gwneud sylwadau am yr amcanion arfaethedig. Mae'r gofyniad i fyrddau gwasanaethau cyhoeddus ymgynghori â chynghorau cymuned a thref yn golygu y bydd cynghorau cymuned a thref yn cael gwybod yn gynnar pa amcanion lleol y mae'r byrddau hynny yn bwriadu eu gosod, er y gallai'r amcanion arfaethedig hynny newid o ganlyniad i'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

29. Dylai cynghorau cymuned a thref ystyried y cynllun llesiant lleol pan fydd y cynllun yn cael ei gyhoeddi ac adolygu'r amcanion lleol ochr yn ochr â'u hamcanion eu hunain ar gyfer y flwyddyn i ddod. Efallai y bydd tebygrwydd rhwng y ddwy set o amcanion sy'n golygu y gellir eu hintegreiddio yn hawdd i ffurfio amcanion y cyngor cymuned neu dref. Dylai cynghorau nodi nad oes angen proses flaengynllunio newydd nac ychwanegol. Dylai cynnwys yr amcanion lleol ddigwydd yr un pryd â phroses flaengynllunio flynyddol y cyngor. Byddai'n briodol, er enghraifft, i'r camau mae'r cyngor yn penderfynu eu cymryd tuag at fodloni'r amcanion lleol yn y cynllun llesiant ymwneud â'r gweithgareddau a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu eisoes.

30. Y ddyletswydd yn adran 40(1) y Ddeddf yw cyfrannu at gyflawni'r **amcanion lleol** yn y cynllun llesiant lleol sy'n berthnasol yn ardal y cyngor penodol, yn hytrach nag yn uniongyrchol at y nodau llesiant. Fodd bynnag, bydd y nod o gyfrannu at y nodau llesiant wrth wraidd yr amcanion lleol.

31. Mae'n bwysig pwysleisio bod y cyngor cymuned neu dref sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd yn gyfrifol am benderfynu drosto'i hun sut y bydd yn cymryd "pob cam rhesymol" tuag at fodloni'r amcanion yn y cynllun llesiant. Mae hyn yn caniatáu i'r cyngor gymryd perchnogaeth o'r amcanion ac yn rhoi disgresiwn iddo gyflawni'r ddyletswydd hon mewn modd sy'n gweddu orau i'w gapasiti a'i al

32. Mater i'r cyngor cymuned neu dref yw penderfynu a yw'n dymuno gofyn am gyngor pellach gan y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus ynghylch yr amcanion lleol y mae wedi dewis cymryd camau tuag at eu bodloni.

33. Gallai'r cyngor ystyried hefyd a yw'n dymuno cydweithio gydag unrhyw un o'r "partneriaid eraill" i gyflawni'r amcanion llesiant penodedig.

*Ystyried goblygiadau ariannu*

34. Gallai’rcamau a gymerwyd tuag at fodloni'r amcanion lleol olygu ystyriaethau ariannu. Disgwylir y bydd unrhyw ddyraniad cyllidebol arfaethedig yn cael ei ystyried fel rhan o'r penderfyniadau cyffredinol ynghylch y gyllideb flynyddol am y flwyddyn i ddod. Mater i'r cyngor cymuned neu dref yw ystyried goblygiadau camau o ran staffio ac adnoddau eraill i gwrdd â'r amcanion lleol a phenderfynu sut orau i weithredu'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd.

*Ymgysylltu â’r gymuned*

35. Er nad yw’n un o ofynion y Ddeddf byddai Gweinidogion Cymru yn annogcynghorau cymuned a thref yn gryf i ymgysylltu â'u cymunedau ynghylch yr amcanion lleol a'r camau arfaethedig y bwriada'r cyngor eu cymryd i gyfrannu at yr amcanion hyn.

36. Byddai dulliau ymgysylltu presennol megis y defnydd o wefannau, cyfryngau cymdeithasol, cyfarfodydd cyhoeddus a gweithdai, grwpiau ffocws a hysbysfyrddau lleol i gyd yn chwarae eu rhan.

37. Pe bai ar gynghorau angen arweiniad pellach, mae'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru[1] a'r Practitioners’ Manual for Public Engagement[2] wedi cael eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru a grwpiau yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector ar y cyd megis yr Egwyddorion Cenedlaethol newydd ar gyfer Cyfranogi ac Ymgysylltu yng Nghymru.

*Cytuno ar gamau*

38. Bydd angen i'r sbectrwm llawn o amcanion ym mlaengynllun y cyngor a'r cynllun gweithredu sy'n deillio ohono gael ei adolygu a'i gymeradwyo gan y Cyngor llawn. Ar ôl hynny, efallai y bydd gweithredu’r camau yn cael eu dirprwyo i bwyllgor neu is-bwyllgor i'w cyflawni.

39. Er nad yw'n ofynnol o dan y Ddeddf, byddai Gweinidogion Cymru yn argymell y dylai cynghorau cymuned a thref gyhoeddi eu blaengynlluniau ar eu gwefannau

*Gweithredu a monitro cynnydd*

40. Yn dibynnu ar y penderfyniad a wneir gan y cyngor, gallai'r gwaith o weithredu a monitro'r camau i'w cymryd gael ei ddirprwyo i bwyllgor neu is-bwyllgor o'r cyngor gyda chefnogaeth weinyddol yn cael ei darparu gan y clerc. Ond mae'n bosibl y bydd y clerc yn cymryd cyfrifoldeb am y swyddogaethau hyn.

41. Dylai cynnydd gael ei fonitro trwy gydol y flwyddyn gydag adroddiadau rheolaidd i'r Cyngor llawn.

42. Dylai’r cynnydd a wnaed erbyn diwedd y cyfnod adrodd gael ei werthuso a dylai’r graddau y mae'r cyngor wedi bodloni'r ymrwymiadau ynghylch y camau i'w cymryd a wnaed ar ddechrau'r flwyddyn i fodloni amcanion yn y cynllun llesiant lleol gael eu hasesu.

43. Dylai’r wybodaeth hon gael ei bwydo'n ôl i'r cyngor llawn a bydd yn cael ei chynnwys yr Adroddiad Blynyddol.

---

[1] http: //www.participationcymru.org.uk/media/288784/national_principles_for_public_engagement_aug1_.pdf

[2] http://www.participationcymru.org.uk/national-principles/practitioners-manual-for-public-engagement

*Paratoi Adroddiad Blynyddol*

44. At ddibenion y Ddeddf, mae angen i adroddiad blynyddol cyngor cymuned a thref y mae’r ddyletswydd yn adran 40(1) y Ddeddf yn berthnasol iddo roi manylion y cynnydd a wnaed yn ardal y cyngor i gymryd camau tuag at gyflawni'r amcanion lleol a gynhwysir yn y cynllun llesiant lleol.

45. Mae rhai cynghorau cymuned a thref yn cyhoeddi adroddiadau blynyddol, neu gylchlythyrau yn barod, a gallai'r ddyletswydd i adrodd ar gynnydd gael ei hymgorffori o fewn y rhain. Os bydd y cyngor yn dymuno ehangu cwmpas yr adroddiad blynyddol fel ei fod hefyd yn cynnwys gweithgareddau'r cyngor nad ydynt yn ymwneud yn benodol â'r amcanion lleol yn y cynllun llesiant lleol, bydd angen i'r camau a gymerwyd tuag at yr amcanion hynny fod wedi eu dangos yn glir.

46. Mae'r canlynol yn fformat posibl ar gyfer adroddiad blynyddol y gellid ei ddilyn:
    - Rhagair, yn cynnwys cyflwyniad i rôl y Cyngor a'i weledigaeth a'r amcanionlleol yn y cynllun llesiant lleol.
    - Adroddiad y Maer / Cadeirydd a / neu adroddiad y Clerc ar y camau y penderfynodd y cyngor eu cymryd tuag at fodloni'r amcanion lleol yn y cynllun llesiant lleol.
    - Y cynnydd a wnaed i gyflawni'r camau hyn tuag at fodloni'r amcanion lleol.

47. Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) wedi cynhyrchu canllawiau ar adroddiadau blynyddol a allai fod yn ddefnyddiol i gynghorau.[4]

48. Gellid dirprwyo cyfrifoldeb i bwyllgor neu is-bwyllgor am ddrafftio'r adroddiad blynyddol. Dylid ei gymeradwyo gan y cyngor llawn cyn iddo fod ar ffurf derfynol.

49. Rhaid iddo gael ei gyhoeddi cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi. Gallai cynghorau sy’n cynhyrchu cylchlythyrau ar bapur neu e-bost ar hyn o bryd gyhoeddi eu hadroddiad blynyddol fel rhan o, neu ynghlwm wrth y rhain. Gallai adroddiadau blynyddol gael eu postio ar wefan y cyngor hefyd. Gellid defnyddio cyfryngau cymdeithasol a’r wasg leol i hysbysebu lleoliad yr adroddiad blynyddol.

50. Dylid cyflwyno’r adroddiad blynyddol ar ddiwedd y flwyddyn i'r bwrdd gwasanaethau cyhoeddus er mwyn iddo ei ystyried wrth gynhyrchu ei adroddiad blynyddol ei hun. Bydd yr adroddiadau hyn yn helpu'r byrddau i adolygu cynnydd cyffredinol tuag at gyflawni eu hamcanion.

51. Gallai cynghorau cymuned a thref hefyd ddymuno cynhyrchu adroddiadau monitro chwarterol fel adborth ar gynnydd i'r bwrdd gwasanaethau cyhoeddus.

[4] http://www.wcva-ids.org.uk/wcva/1077

## 5. Ceisio cyngor Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

52. Rôl Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yw gweithredu fel gwarcheidwad ar gyfer buddiannau cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru, a chefnogi'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf o ran gweithio tuag at gyflawni'r nodau llesiant.

53. Wrth ddrafftio eu cynlluniau llesiant lleol, rhaid i'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus ofyn cyngor y Comisiynydd ar sut i gymryd camau i fodloni eu hamcanion lleol mewn modd sy'n gyson â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

54. Gallai fod yn ddefnyddiol i gynghorau cymuned a thref gyfeirio at gyngor y Comisiynydd a fydd yn cael ei gyhoeddi yr un pryd â chynllun llesiant lleol y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus.

55. Caiff y Comisiynydd roi cyngor neu arweiniad i unrhyw un y mae'r Comisiynydd o'r farn sy'n cymryd (neu'n dymuno cymryd) camau a allai gyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant.

56. Mae hyn yn golygu y gallai cynghorau cymuned a thref y mae'r ddyletswydd yn adran 40 y Ddeddf yn gymwys iddynt ofyn am gyngor neu gymorth gan y Comisiynydd am sut y gallant gydymffurfio â'u dyletswydd i gymryd pob cam rhesymol yn eu hardaloedd tuag at fodloni'r amcanion lleol yn y cynlluniau llesiant lleol.